Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Ysgol Gynradd Llanedern
Wellwood
Llanedern
Caerdydd
CF23 9JN

23/02/2026

Annwyl arweinwyr a staff

**Ymweliad interim:** Ionawr 2026

Ymwelodd tîm o arolygwyr ag Ysgol Gynradd Llanedern yn ddiweddar i ystyried cynnydd o ran dau argymhelliad o'r arolygiad craidd blaenorol. Achubodd y tîm arolygu ar y cyfle i arsylwi addysgu a dysgu, siarad â disgyblion a staff, ystyried dogfennau, ac edrych ar samplau o waith disgyblion. Isod, ceir crynodeb o'r canfyddiadau o'r ymweliad.

## Ffocws yr ymweliad

## Gwella ansawdd yr addysgu i sicrhau bod pob disgybl yn gwneud cynnydd effeithiol

- Mae arweinwyr wedi sefydlu gweledigaeth glir, ar y cyd ar gyfer addysgu a dysgu, sy'n cael ei deall yn dda gan staff ac yn sicrhau arfer gynyddol gyson mewn ystafelloedd dosbarth ar draws yr ysgol.
- Mae dysgu proffesiynol a hyfforddi yn cael eu targedu'n dda, ac yn effeithiol, gan gryfhau hyder, gwybodaeth a dealltwriaeth addysgegol athrawon, sy'n cael ei adlewyrchu mewn gwersi mwy pwrpasol a difyr.
- Mae staff mewn dosbarthiadau prif ffrwd a'r Ganolfan Adnoddau Arbennig (CAA) yn addasu'r dysgu yn dda i ddiwallu anghenion disgyblion, gan ddefnyddio sgaffaldio, cymorth a her briodol i fynd i'r afael â chamdybiaethau ac ymestyn dysgu.
- Mae athrawon yn darparu adborth clir a chyson mewn gwersi, gan alluogi disgyblion i ddeall beth maent yn ei wneud yn dda, nodi'r camau nesaf a gwella'u gwaith.
- Mae amgylcheddau dysgu, yn cynnwys ardaloedd yn yr awyr agored a darpariaeth y blynyddoedd cynnar, yn gryfder yn yr ysgol. Maent wedi eu cynllunio'n ystyriol ac

Estyn, Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd, CF24 5JW Ffôn: 02920 446446 ymholiadau@estyn.llyw.cymru www.estyn.llyw.cymru

Estyn, Anchor Court, Keen Road, Cardiff, CF24 5JW Telephone: 02920 446446 enquiries@estyn.gov.wales www.estyn.gov.wales

Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu'r llall yn cael yr un flaenoriaeth.

Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.

yn cynnwys adnoddau da, gan gefnogi lles disgyblion a sicrhau eu bod yn barod i ddysgu.

- Mae disgyblion yn elwa ar gyfleoedd rheolaidd i ddatblygu eu medrau datrys problemau, creadigol a meddwl, ac yn dangos agweddau cadarnhaol at ddysgu, gan werthfawrogi adborth a mwynhau her.
- Mae disgyblion yn cymhwyso’u medrau yn hyderus ar draws y cwricwlwm ac yn gwneud cynnydd da mewn gwersi, a thros gyfnod.

## Sicrhau bod prosesau monitro a datblygu yn nodi pob un o’r blaenoriaethau pwysig ac yn sicrhau gwelliant effeithiol

- Ers yr arolygiad craidd, mae arweinwyr yr ysgol wedi culhau ffocws prosesau hunanwerthuso a gwella i ganolbwyntio’n glir ar y blaenoriaethau pwysicaf a’r rhai a fydd yn cael yr effaith fwyaf ar ddeilliannau disgyblion. Mae’r prosesau hyn yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i gynnwys pob un o’r staff ac annog cydweithio fel ysgol gyfan.
- Mae’r pennaeth yn grymuso arweinwyr yr ysgol i ymgymryd â gweithgareddau hunanwerthuso yn bwrpasol, tra’n meithrin capasiti arwain, hefyd. Mae gan arweinwyr ddealltwriaeth fwy cyson a chyfunol o beth sy’n gweithio’n dda a pha feysydd y mae angen eu gwella.
- Mae arweinwyr yr ysgol yn sicrhau bod pob un o’r staff yn chwarae rôl weithredol yn y broses huanwerthuso. Mae arweinwyr yn rhoi adborth unigol a chyfunol gwerthfawr i athrawon sy’n nodi arfer effeithiol ac yn nodi meysydd i’w datblygu. Mae’r prosesau hyn yn rhoi dealltwriaeth dda iddynt o effeithiolrwydd gwaith yr ysgol ar draws llawer o agweddau ar ei darpariaeth.
- Mae’r corff llywodraethol yn dwyn y pennaeth i gyfrif yn bwrpasol am les a chynnydd disgyblion, ac maent yn cyfrannu’n rheolaidd at weithgareddau hunanwerthuso. Maent yn ennill tystiolaeth uniongyrchol trwy eu ymglymiad mewn ystod o weithgareddau, fel teithiau dysgu a thrafodaethau â staff. Mae hyn yn eu galluogi i gynnig cymorth buddiol a her briodol i arweinwyr yr ysgol.

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygiad craidd diweddaraf yr ysgol a mwy o wybodaeth am y broses a diben ymweliadau interim ar ein gwefan:
https://www.estyn.llyw.cymru/darparwyr/llanedeyrn-primary-school-cy/

Yn gywir

LMiles.

**Liz Miles**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol